# Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymchwil Dysgu ac Addysgu'r Gymraeg

## 1. Diben a Chyd-destun

Diben y Pwyllgor Ymchwil yw darparu arbenigedd a chyngor proffesiynol, annibynnol, gan gyfrannu at gyfeiriad strategol a gweithgareddau ymchwil y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd y Pwyllgor, gyda chyfraniad sylweddol gan aelodau allanol â phrofiad ymchwil perthnasol, yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau ymchwil y Ganolfan yn berthnasol, o ansawdd uchel ac yn cael eu llywio gan farn arbenigol, annibynnol.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn cefnogi ac yn llywio gweithrediad Strategaeth Ymchwil y Ganolfan, gan gyfrannu at ddatblygu'r Ganolfan fel canolbwynt cenedlaethol ar gyfer ymchwil dysgu ac addysgu'r Gymraeg, a sicrhau bod penderfyniadau strategol a gweithredol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, arloesedd, cynhwysiant ac effaith.

Lleolir gwaith y Pwyllgor o fewn cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach, gan gynnwys sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel corff statudol, a'r bwriad y bydd yr Athrofa yn cydlynu a chomisiynu ymchwil ar addysgu neu ddysgu Cymraeg.

## 2. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau Craidd

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu mewn rôl cynghori strategol, gan gyfrannu barn arbenigol i lywio cyfeiriad a safon gwaith ymchwil y Ganolfan, ac, lle bo'n briodol, i gynnig barn ar agweddau ar brosiectau ymchwil unigol.

### Cyfeiriad Strategol

- Craffu a chynghori ar Strategaeth Ymchwil y Ganolfan.
- Cynghori ar gyfeiriad cyffredinol y rhaglen ymchwil, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Ganolfan, anghenion y sector a blaenoriaethau polisi cenedlaethol.

### Blaenoriaethu a Chomisiynu Ymchwil

- Darparu barn arbenigol ar flaenoriaethau ymchwil y Ganolfan, gan ystyried tystiolaeth, anghenion y sector a bylchau gwybodaeth.
- Rhoi cyngor a chraffu ar ymchwil mae'r Ganolfan yn ei chomisiynu neu'n ei chefnogi, gan gynnwys grantiau ymchwil, prosiectau ar wahanol raddfeydd a gwerthusiadau rhaglenni.
- Cynghori ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio â phartneriaethau ymchwil gyda phrifysgolion a rhanddeiliaid eraill, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

### Ansawdd a Moeseg

- Bydd y pwyllgor yn craffu ar drefniadau moesegol gwaith ymchwil a gomisiynir gan y Ganolfan, gan gynnwys diogelu data, caniatâd gwybodus a hygyrchedd.
- Cynghori ar ansawdd methodolegol ac unrhyw risgiau cysylltiedig.

**Monitro ac Effaith**

- Monitro cynnydd prosiectau ymchwil yn erbyn amcanion, amserlenni ac allbynnau disgwyliedig
- Cynghori ar ffyrdd o gryfhau effaith ymchwil ar bolisi, darpariaeth a phrofiad dysgwyr.

**Cyfnewid Gwybodaeth a Datblygu Capasiti**

- Cynghori ar ddulliau effeithiol o gyfnewid gwybodaeth a rhannu canfyddiadau ymchwil gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ymarferwyr a'r sector Dysgu Cymraeg yn ehangach.
- Cefnogi datblygiad diwylliant o ymchwil a dysgu ar y cyd, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer seminarau, digwyddiadau a chydweithio.

**3. Aelodaeth**

- Bydd y Pwyllgor yn cynnwys cyfuniad o aelodau allanol ac aelodau staff y Ganolfan.
- Bydd y mwyafrif o'r aelodau yn aelodau allanol â phrofiad perthnasol mewn, e.e. meysydd ymchwil perthnasol, goruchwylio ymchwil, dysgu ac addysgu ail iaith, cynllunio ieithyddol a data ac ystadegau.
- Disgwylir i aelodau'r Pwyllgor ddarparu her adeiladol, barn arbenigol, annibynnol a chyngor proffesiynol, a chyfrannu'n adeiladol at gyfarfodydd a thrafodaethau.

**4. Cyfarfodydd**

- Disgwylir i'r Pwyllgor gynnal tri chyfarfod y flwyddyn.
- Rhagwelir y bydd dau gyfarfod yn rhithiol ac un wyneb yn wyneb.

**5. Adrodd a Chraffu**

- Bydd y Pwyllgor yn darparu cyngor ac adborth i swyddogion y Ganolfan, fydd yn adrodd ar weithgareddau'r Pwyllgor Ymchwil i Fwrdd Ymgynghorol y Ganolfan.
- Bydd crynodeb o weithgareddau ymchwil a gwaith y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y Ganolfan.

**6. Adnoddau**

- Bydd y Ganolfan yn darparu cefnogaeth briodol i alluogi gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys adnoddau gweinyddol a chyllideb ar gyfer comisiynu ymchwil a gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth.
- Bydd y Pwyllgor yn darparu cyngor ar flaenoriaethu gwariant y gyllideb yn unol â blaenoriaethau'r Strategaeth Ymchwil.

**7. Adolygu'r Cylch Gorchwyl**

- Caiff y Cylch Gorchwyl hwn ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol, yn berthnasol ac yn gyson â Strategaeth Ymchwil y Ganolfan a datblygiadau polisi perthnasol.

---

# Terms of Reference for the Welsh Language Teaching and Learning Research Committee

## 1. Purpose and Context

The purpose of the Research Committee is to provide professional, independent advice and expertise, contributing to the strategic direction and research activities of the National Centre for Learning Welsh. The Committee, with a significant contribution from external members with relevant research experience, will help ensure that the Centre's research activities are relevant, of high quality, and informed by expert, independent advice.

The Committee's work will support and inform the implementation of the Centre's Research Strategy, contributing to the development of the Centre as a national focal point for research into Welsh language learning and teaching, and ensuring that strategic and operational decisions are based on robust evidence, innovation, inclusion and impact.

The Committee's work is situated within a wider policy and legislative context, including the establishment of the 'Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol' as a statutory body, and the intention that the Institute will coordinate and commission research into Welsh teaching and language acquisition.

## 2. Scope of Work and Core Responsibilities

The Committee will operate in a strategic advisory role, contributing expert opinion to inform the direction and quality of the Centre's research work and, where appropriate, offering views on aspects of individual research projects.

**Strategic Direction**

- Scrutinise and advise on the Centre's Research Strategy.
- Advise on the overall direction of the research programme, ensuring alignment with the Centre's strategic priorities, the needs of the sector, and national policy priorities.

**Prioritisation and Commissioning of Research**

- Provide expert opinion on the Centre's research priorities, taking into account evidence, the needs of the sector and knowledge gaps.
- Provide advice and scrutiny on research commissioned or supported by the Centre, including research grants, projects of varying scales, and programme evaluations.
- Advise on opportunities for research collaboration and partnerships with universities and other stakeholders, in Wales and internationally.

**Quality and Ethics**

- Scrutinise the ethical arrangements of research commissioned by the Centre, including data protection, informed consent and accessibility.
- Advise on methodological quality and any associated risks.

**Monitoring and Impact**

- Monitor the progress of research projects against objectives, timelines and expected outputs.
- Advise on ways to strengthen the impact of research on policy, provision and learner experience.

**Knowledge Exchange and Capacity Development**

- Advise on effective ways to exchange knowledge and share research findings with stakeholders, including practitioners and the wider Welsh language learning sector.
- Support the development of a culture of shared research and learning, including opportunities for seminars, events and collaboration.

**3. Membership**

- The Committee will consist of a combination of external members and Centre staff.
- The majority of members will be external members with relevant experience in, for example, relevant research fields, research supervision, second language learning and teaching, language planning, and data and statistics.
- Committee members are expected to provide constructive challenge, independent expert opinion and professional advice, and to contribute constructively to meetings and discussions.

**4. Meetings**

- The Committee is expected to hold three meetings per year.
- It is anticipated that two meetings will be held virtually and one face-to-face.

**5. Reporting and Scrutiny**

- The Committee will provide advice and feedback to Centre officers, who will report on the activities of the Research Committee to the Centre's Advisory Board.
- A summary of research activities and the Committee's work will be included in the Centre's annual report.

**6. Resources**

- The Centre will provide appropriate support to enable the Committee's work, including administrative resources and a budget for commissioning research and for activities to share and disseminate knowledge.
- The Committee will provide advice on prioritising budget expenditure in line with the priorities of the Research Strategy.

**7. Review of the Terms of Reference**

- These Terms of Reference will be reviewed annually to ensure that they remain current, relevant and consistent with the Centre's Research Strategy and relevant policy developments.

______________________________